OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3089 (Cy. 310) (C. 132)

# BWYD, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym yn llawn adran 2(5)(b) o'r Ddeddf ar 28 Tachwedd 2014 er mwyn estyn y diffiniad o "sefydliad busnes bwyd" i gynnwys sefydliad sy'n cyflenwi bwyd i fusnes arall.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 3(2), (3)(c) a (d) a (5); 5(4) a (10)(d); 6(2) a (3); 7(3) a (4); 12(2) a (9)(d); a 15(1) | 28 Hydref 2013 (at ddibenion gwneud rheoliadau) | 2013/2617 (Cy. 256) (C. 104) |
| Adrannau 1; 2 (ac eithrio paragraff (b) o is-adran (5)); 3 (at y dibenion sy'n weddill); 4; 5, 6 a 7 (at y | 28 Tachwedd 2013 | 2013/2617 (Cy. 256) (C. 104) |

dibenion sy’n
weddill); 8 i
11; 12 (at y
dibenion sy’n
weddill); 13 a
14; 15 (at y
dibenion sy’n
weddill); 16 i
26; 28; a’r
Atodlen

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 3089 (Cy. 310) (C. 132)

# BWYD, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2014

*Gwnaed* *18 Tachwedd 2014*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau yn adran 27(2) o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013([1]).

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2014.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 28 Tachwedd 2014**

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 2(5)(b) o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ddod i rym yw 28 Tachwedd 2014.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

18 Tachwedd 2014

([1]) 2013 dccc 2.